O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 1485 (Cy. 184)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygái) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*31 Mai 2012*
Yn dod i rym	*12 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 12 Mehefin 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Cyfnewidfa Llandygái) i Gyffordd 9 (Cyfnewidfa Treborth), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 05:00 o'r gloch ar 12 Mehefin 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 9 ac 11 yn Sir Gwynedd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni caiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd na pheri na chaniatáu i gerbyd gael ei yrru, ac eithrio cerbyd esempt, ar y ffyrdd ymuno ac ymadael a bennir yn Atodlen 1 nac ar naill ai'r gerbytffordd tua'r gorllewin na cherbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen 1.

4. (1) Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar y gerbytffordd tua'r gorllewin y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ond, yn unol ag erthygl 12, ddim yn cael ei wahardd rhag symud ar y gerbytffordd tua'r dwyrain, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r dwyrain i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r gorllewin.

(2) Tra bo traffig yn cael ei wahardd gan erthygl 3 rhag symud ar gerbytffordd tua'r dwyrain y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 ond, yn unol ag erthygl 12, ddim yn cael ei wahardd rhag symud ar gerbytffordd tua'r gorllewin, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd ar lôn allanol y gerbytffordd tua'r gorllewin i unrhyw gyfeiriad ac eithrio tua'r dwyrain.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 a 3.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.65 metr o led neu'n lletach na hynny, na pheri na chaniatáu iddo fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri iddo gael ei reidio, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

9. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach

na 40 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

10. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 12, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu iddo fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 6.

11. Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (yr A5) (Llanfair Pwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1983**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlenni 5 a 6, wedi eu hatal drwy hyn ar yr adegau y mae'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 9 a 10 yn weithredol.

12. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 31 Mai 2012

G R Morgan
G R MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
(3) O.S. 1983/1772.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1
Gwahardd cerbydau dros dro yn ystod gwrthlif

Y darn o gerbytffyrdd tua'r dwyrain a'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 700 o fetrau i'r